

DIOLCH CYFFREDINOL

DIOLCH A CHEISIO

Mae hen ddywediad,

‘Os yw rhywbeth yn werth ei gael, mae’n werth gofyn amdano.’

Doedd gan Iesu ddim amheuaeth ynglŷn â hynny! Nid yn unig ymhyfrydai yn Nuw a’i bresenoldeb, fe ofynnai i Dduw am fendithion, am gymorth, am arweiniad.

Mae dysgeidiaeth Iesu ar weddi yn llawn anogaeth i ofyn, a cheisio, a churo wrth y drws.

Mynd at Dduw â phetisiwn....cais....yn ein calonnau ac ar ein gwefusau. Dywedodd Iesu hefyd fod Duw’n gwybod ein hanghenion cyn ein bod yn yngan yr un gair. Awgryma hynny y dylem ystyried ein ceisiadau i weld a ydynt yn unol a’i ewyllys ef. Ac nid yw Duw’n dymuno rhoi i ni ddim a wna niwed parhaol i ni. Mae’n ceisio’n lles a’n dedwyddwch a’n hapusrwydd. Ni olyga hynny fod Duw yn ein maldodi a’n mwytho â phethau melys a chyfforddus o hyd ac o hyd.

Nid yw’n rhoi dim sy’n dda i ni ar draul lles pawb arall. Mae balans rhwng yr hyn sydd dda i ni a’r hyn sydd dda i’n brawd a’n chwaer.

‘Ein Tad’ yw geiriau cynta’r weddi a ddaeth yn batrwm i ni. Mae’n bwysig hefyd ein bod yn gofyn yn ysbryd ymddiriedaeth. Os nad *ymdiriedwn* yn Nuw, llesteiriwn ei allu i roi.

Elfed ap Nefydd Roberts, *Yn Ôl y Dydd*

DIOLCH IDDO

Y mae diolchgarwch yn elfen hanfodol mewn crefydd fyw ac yn agor a datguddio rhai o gyfrinachau dyfnaf y bywyd ysbrydol. Mewn diolchgarwch y mae darganfod cyfrinach gweddi ac addoli fel dathliad llawen a diolchgar o ddaioni Duw a gorfoledd ynddo. Heb ymdeimlo â diolchgarwch y mae’n

haddoliad yn troi'n ffurfioldeb gwag a'n gweddio yn arferiad marw. Mewn diolchgarwch hefyd y mae canfod cyfrinach hapusrwydd wrth ddysgu edrych ar fywyd â llygaid gwerthfawrogol a chanfod ynddo y da a'r prydferth, hyd yn oed yng nghanol drygioni a bryntni bywyd.

Elfed ap Nefydd Roberts, *Yn Ôl y Dydd*

YMDEIMLAD O DDYLED

Yn y gwraidd, mater o ymdeimlad o ddyled yw diolchgarwch. Mae'n fynegiant ar wefus o rywbeth sydd yn y galon yn y lle cyntaf. A'r hyn sydd yn y galon yw'r argyhoeddiad mai dyledwyr ydym ni. Ond erbyn meddwl, rhai digon anfoddog wrth gydnabod dyled yw plant y ddaear. Ac ambell waith, mae modd synhwyro ein bod ni'n llai parod heddiw i gydnabod ein dyled, nag erioed. Mae plant yr oes newydd yn ei chael hi'n rhwyddach sôn am eu hawliau nag am eu dyled.

Roedd Iesu Grist wedi neilltuo un o'i ddamhegion i sôn am hyn, sef Dameg y Ddau Ddyledwr. Dau berson go wahanol i'w gilydd oedd y rhain, y naill yn frenin, a'r llall yn was. Ond nid yn eu statws yr oedd y gwahaniaeth pennaf, ond yn y modd yr ymatebodd y ddau i'r ddyled a oedd arnyn nhw i'w cyddyn. Roedd y gwas yn nyled y brenin o swm aruthrol, sef deng mil talent. Roedd fel maen melin am ei wddf a doedd ganddo ddim byd i'w wneud ond ei daflu ei hun ar drugaredd y brenin. Ac fe ddigwyddodd gwyrrth! Doedd dim gair arall i ddisgrifio'r peth! Oherwydd maddeuodd y brenin y ddyled i gyd, i'r geiniog olaf.

Ond wyddoch chi beth wnaeth y gwas? Ac yntau'n methu credu ei lwc, fe gofiodd yn sydyn fod un o'i gyd-weision yn ei ddyled *ef* o ychydig bunnoedd. A dyma fynd ato, a gafael ynddo gerfydd ei wddf, a'i fwrw i'r carchar. A hynny am ddyled bitw o fach! Y cnaf ag ef!

Ond holl ergyd Iesu Grist, yn ei ddameg gyrhaeddgar, yw mai gweddus yw inni gofio, ni sy'n pwyntio bys cyhuddgar at y gwas anfaddeugar, fod bys Duw yn pwyntio'n gyhuddgar atom ninnau. Yn wir, ni – chi a minnau – sy'n sôn o hyd am ein hawliau, er i Dduw faddau dyled mor fawr inni, yw prif gymeriad y ddameg. A dyna pam y mae'n hwyr bryd ein bod ni'n mynd ar ein gliniau mewn diolchgarwch i Dduw. Yn wir,

Mawr ddyled arnom sydd
I foli Iôr y nef,
Wrth weld o ddydd i ddydd
Mor dirion ydyw Ef;
Ein Tad yr Ef, mae'n rhoi in' faeth –
Y flwyddyn hon ein cofio wnaeth.

Maurice Loader, *Taro'r Sul*

DUW'R CRÛWR A DUW'R GWAREDWR

Dyna'r Creawdwr: y mae ei law yn agored, y mae'n diwallu popeth byw y ôl i ewyllys. Ond wth inni addoli Duw ar adeg diolchgarwch fel hyn, y ddwy elfen sy'n plethu i'w gilydd yw Duw'r Crëwr a Duw'r Gwaredwr. Cydnabyddwn nerth, gallu ac awdurdod Duw. Y mae yn wir yn rhyfedd ac ofnadwy, ond wir gyfrinach ei fawredd yw ei raslonrwydd, 'y mae'n agos at bawb sy'n galw arno', 'fe gymer sylw o'r isel'. Trwy Iesu fe wyddom fod ganddo wyneb dynol; fe wyddom ei fod yn wresog tuag atom ac yn gobeithio cael ymateb yr un mor wresog oddi wrthym ni. Y mae Duw yn ymhél â'r byd yma yn ddiamod – y mae wedi cerdded yn byd, y mae ei Ysbryd yn rhydd yn y byd a greodd. O achos Iesu, yr ydym yn ei gysylltu â chariad annatod at y byd ac yn meddwl amdano fel partner, fel cyd-weithiwr, yn rhan o'n oll gysylltiadau personol. Mae Duw yn ein cyfarch ni fel ffrind. A pheidied neb â dibrisio datguddiad fel yna.

Dyw e'n *ddim* yng ngolwg y byd ond y mae ei gyfeillgarwch yn obaith nid i ni yn unig ond i fyd cyfan. Y mae bywyd ein Harglwydd Iesu yn gadarn ar y ffaith fod Duw yn dda a thosturiol. Felly, meddai, byddwch fyw *gyda* Duw, *ym* myd Duw, sy'n fyd da, er bod dynion a merched yn gwneud eu gorau i'w ddifetha, ac yn esgus nad yw Duw'n bod o gwbl.

Y GAIR 'DIOLCH'

Mae dwy ran i'r gair 'diolch', sef y rhagddodiad bach syml 'di-', a'r gweddill o'r gair, '-olch'.

Fel arfer, swyddogaeth y rhagddodiad ‘di-’ mewn gair yw negyddu neu greu ystyr croes i’r hyn sy’n dilyn. Mae ‘di-weithdra’ yn enghraifft, ond weithiau, yn llai aml, swyddogaeth y ‘di-’ yw cryfhau, dwysáu, y rhan sy’n dilyn Enghraifft o hyn yw’r gair ‘di-noethi, - mae’r ‘di-’ yn *cryfhau*’r ‘noethi’, nid ei negyddu.

Yn y gair ‘diolch’, swyddogaeth y ‘di-’ yw cryfhau, dwysáu yr ‘-olch’ sy’n dilyn. A beth yw tarddiad ac ystyr yr ‘-olch’?

‘Glywsoch chi’r Archdderwydd. wrth iddo dderbyn yr aberthged yn seremoni’r Orsedd, yn rhoi diolch? Yr hyn a ddwed yw: ‘Diolwch, fy merch!’

Hen ffurf ‘diolch’ oedd ‘diolwch – a’r ‘olwch yn tarddu o’r gair ‘golwch’.

Beth yw ystyr ‘golwch’? Mawl, clod, moliant.

A dyma ni’n deall gwir ystyr y gair ‘diolch’ – rhoi clod, rhoi mawl, a hynny nid yn swta, dros ysgwydd, ond yn gryf, yn ddwys, yn gwbl o ddifrif. Rhoi mawl, a ninnau’n *meddwl* yr hyn a ddywedwn, yw ystyr ‘diolch’.

Yn *meddwl* yr hyn a ddywedwn, a hynny’n dod â ni at y gair Saesneg am ‘diolch’, yw *thank*. A’r gair Saesneg am ‘meddwl’? Wel, *think!* Yn y Saesneg, mae’r ddau air ‘diolch’ a ‘meddwl’ – *thank* a *think* – yn amlwg yn tarddu o’r un ffynhonnell.

Diolchwn – rhown glod, a’n clod o ddifrif.

DIOLCH PLENTYN

Fe wyddom beth yw ‘iaith-babi’ – ‘mw-mw’ am fuwch, ‘me-me’ am ddafad – ac ati, ac ati.

A ‘iaith-babi am ‘Diolch!’? Wel, ‘Da!, ynte? Mae’r fam yn rhoi un o’r melysion i’r plentyn: ‘Dwed da!’ Ac mae’r plentyn yn ufuddhau: ‘Da!’

Cyfystyr ‘diolch’ a ‘da’ yw hynny. Ond nid ‘da’ yn ei ystyr llawn, dwfn, ond yn hydrach. ‘da’ yn ei ystyr fras, arwynebol: ‘da’ megis yn ‘da-da’ – y melys, yr hyfryd, y pleserus, y cwbl-dderbyniol.

A dyma ni, wrth feithrin ein plant, yn dechrau’u cyflyru – i ddiolch, yn unig am y *goodies*, am y ‘da-da’, am y pleserus a’r melys a’r hyfryd.

Dysgwn hwynt i ddiolch yn unig am’ . . . uyn yn prancio’n llon/yn yr heulwen ar y fron . . .’, am ‘ . . . bopeth hardd o dan y nef . . .’, a dysgwn hwynt i ganu, mewn ysbryd o ddiolchgarwch, linellau megis:

Cwyd aderyn bach o’i nyth,
Am fod Duw yn dirion byth . . .

a

Gwrendy’r corwynt ar ei lef . . .
a chyffelyb.

Yn ein rhagirth a’n hanonestrwydd, feiddiwn ni ddim dweud wrthynt ein bod yn pesgi’r uyn ar gyfer ein byrddau cinio, feiddiwn ni ddim dweud wrthynt fod yr aderyn bach yn codi o’i nyth i gael ei larpio gan y gath; feiddiwn ni ddim dweud wrthynt am gorwyntoedd dychrynlyd yn sgubo ymaith bentrefi cyfain ac yn gadael pentyrrau o gyrff, yn bobl a phlant, yn eu sgil. Eu dysgu, yn unig, i ddiolch am y ‘da-das’.

A hwythau’n hwn, ar uyn bach a’r adar bach wedi troi’n llygod mawr y carthffosydd, yn heidio o gwmpas eu traed, a hwythau’n hwn, ac yn ddiymgeledd mewn drycinoedd, does ganddynt ddim testun diolch o unrhyw fath, ac mae’r Duw a gyflwynwyd gennym ni iddynt yn eu plentyndod – Duw y ‘da-das’ – yn bell, bell i ffwrdd.

A ninnau’n methu deall pam nad ydynt, mwyach, yn dal ati i ddod i’r capel.

Mae adnod Eseia 66: 2 yn darllen fel hyn: “‘Fy llaw i a wnaeth y pethau hyn i gyd, a’r eiddod fi yw pob peth,” medd yr Arglwydd.’

Ac fe gofiwch adnod y testun: ‘Ym mhob dim, rhowch ddiolch; oherwydd hyn yw ewyllys Duw . . .’

Ac am i ni anghofio’u dweud wrth ein plant a’n pobl ifanc, mae’n capeli ni’n weigion.

DIOLCH Y RHAI AEDDFETACH

Mae ‘na rai, aeddfetach na’r rhelyw ohonom, wedi dysgu dweud ‘Diolch!’ am bethau heblaw y ‘da-das’, ac yn deall yr adnod yn Eseia: ‘Fy llaw i a wnaeth y pethau hyn i gyd’, ac yn driw i adnod y testun:’ Ym mhob dim, rhowch ddiolch; canys hyn yw ewyllys Duw . . .’

Dyma dair enghraifft i chi:

1. Mae gan Tegla Davies stori fer ardderchog: ‘Samuel Jones yr Hendre yn diolch am ei gynhaeaf.’ Llwm iawn oedd ychydig erwau Samuel Jones – yn wahanol iawn i feysydd eang ffrwythlon Mr Herbert, y Fron. A phan benderfynwyd, am y tro cyntaf erioed, addurno’r capel bach yr âi’r ddau iddo ar gyfer Cyfarfodydd Gweddi’r Diolchgarwch, feysydd (a thai gwydr) Mr Herbert y daeth y gorau a’r mwyaf ecsotig o’r addurniadau. Doedd Samuel Jones ddim yn cyd-weld â’r peth o gwbl: onid ysgall a drain a mieri oedd prif gnydau ei erwau ef? Felly, yn slei bach, rhwng Cyfarfod Gweddi’r ‘prentisiaid’ a Chyfarfod Gweddi’r ‘hoelion wyth’, fe gyfnewidiodd Samuel Jones ei gnydau ef ei hun – ysgall a drain a mieri – am y cynnyrch a addurnai’r capel bach. A’r canlyniad? Yr ail noson, fe wrthodai pawb fynd ymlaen i gymryd rhan. Tasg amhosibl oedd diolch i Dduw yng nghanol drain a mieri! Gwrthodai pawb ond – yn y diwedd – Samuel Jones yr Hendre. Mewn distawrwydd llethol, agorodd y Beibl yn Llyfr Habacuc, yn y drydedd bennod, a darllenodd: ‘Er nad yw’r ffigysbren yn blodeuo, ac er nad yw’r gwinwydd yn dwyn ffrwyth; er i’r cynhaeaf olew ballu, ac er nad yw’r meysydd yn rhoi bwyd; er i’r praid ddarfod o’r gorlan, ac er nad oed gwartheg yn y beudai; *eto* llawenyachaf yn yr Arglwydd, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.’ Oedd! Roedd Samuel Jones – a Thegla Davies, a Habacuc o’u blaenau – yn ddigon aeddfed i allu diolch am rywbeth heblaw y ‘da-das’.

2. Mae tri phennill gan T. Rowland Hughes yn ei emyn mawr, mawreddog, ‘Tydi a roddest liw i’r wawr . . .’ Yn y cyntaf a’r ail clywn am y wawr a’r machlud a’r gwanwyn, am nant a choedwig ac awel ac ehedydd – am hudoliaeth eu prydferthwch a’u ceinder, ac am y rheidrwydd inni barhau i ganu ein caneuon o ddiolchgarwch amdanynt. Ond yna, yn y trydydd pennill, cawn y diweddglo hwn:

O! cadw ni *rhag* dyfod oes

Heb goron ddrain, na chur, na chroes.

Gwerthfawrogiad – diolch – sydd yma, am groesau o ddrain ac am gŵr, am groes. A hynny gan fardd a wyddai, yn bersonol, beth oeddynt.

Ond fe wyddai rywbeth arall. Gwyddai mai ‘Fy llaw i a wnaeth y pethau hyn i gyd’ ac ‘. . . ym mhob dim, rhowch ddiolch.’

Roedd T. Rowland Hughes, hefyd, wedi symud o Gyfarfod Diolchgarwch y Plant i Gyfarfod Diolchgarwch y Rhai Aeddfed.

3. Yn ei emyn, ‘Fy Nhad o’r nef, O gwranddo nghri. . .’, Mae Moelwyn Hughes yn gofyn am ‘y pethau da’. Newidiwyd y geiriau hyn, mewn rhai fersiynau o’r emyn, yn ‘doniau da’, rhag ofn i unrhyw un feddwl mai sôn am loshin – am ‘dda-das’ – yr oedd. Ond doedd dim angen eu newid, oherwydd mae ‘na linellau yn yr emyn sy’n gwneud yr ystyr yn hollol ddiamwys:

Fe all mai’r *storum fawr* ei grym
A ddaw â’r pethau gorau im;
Fe all mai *drygau’r byd* a wna
I’m henaid geisio’r pethau da.

Gwyddai Moelwyn Hughes – fel Tegla Davies, fel T. Rowland Hughes, fel Habacuc – y gall hyd yn oed y ‘storum fawr’ a ‘drygau’r byd’ fod yn destun ein diolch, gan gofio mai “‘eiddof fi yw pob peth”, medd yr Arglwydd.’

A bydded i’r Arglwydd, o’i fawr ras, ein galluogi ninnau hefyd i ddatgan, yng nghwmni’r rhai aeddfed: ‘Ym mhob dim, rhown ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu.’

John Owen, *Cau’r Adwy*

DIOLCH I’R IÔR

Doedd pethau ddim yn dda a dweud y lleiaf, fel y gwyddoch, rhwng yr Iddewon a’r Samariaid, ond y syndod yw mai trwy’r Samariaid y dysgodd yr Arglwydd Iesu dair o wersi pwysig i ddisgyblion ei oes ei hun ac i ddisgyblion pob oes: *goddefgarwch, cymwynasgarwch a diolchgarwch*.

Hanes deg o ddynion y gororau sydd yma, dynion a oedd yn dioddef o’r gwahanglwyf, y clefyd enbydus a laddodd y cenhadwr Father Damien ym Molokai ar fore Sul y Pasg 1849 yn 49 mlwydd oed. Cafodd pob un ohonynt drugaredd gan yr Iesu, ond yna, syn yw’r sôn, dim ond *un* a ddychwelodd i

ddiolch, a hwnnw'n Samariad. Yng ngeiriau'r Iesu: *Pa le mae y naw?* Wedi'r cwbl, mae'r fath beth yn bod â boneddigeddurwydd, urddas ac anrhydedd, onid oes? Mae Eseia, yr Hen Ficer, Twm o'r Nant a stori Androcles a'r llew (Aesop) yn dweud fod yr anifeiliaid, hyd yn oed, yn ddiolchgar. Wyddoch chwi fod y geiriau *think* a *thank* yn dod o'r un gwreiddyn? Am hynny, mae bod yn ddiolch (*thankless*) yn gyfystyr â bod yn ddifeddwl (*thoughtless*) – yn llai na dynion ac yn salach na'r creaduriaid.

Un nos Sul cyhoeddodd Edward Mathews, Ewenni, Gyfarfod Diolch yn Nhonyrefail, gan ychwanegu: *Os oes yma rywrai sydd yn byw arnynt eu hunain, does dim rhaid iddynt hwy drafferthu i ddod.* . .

Dim ond un allan o ddeg a drafferthodd i ddod yn ôl i ddiolch am y waredigaeth fawr o'r gwahanglwyf heintus a marwol. Er hynny, ni thynnir y fendith yn ôl gan y naw anniolchgar. Nid fel y mae'r byd yn rhoddi y rhydd Duw, *canys y mae Efe yn peri i'r haul godi ar y drwg a'r da, ac yn glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.*

Duw, ffynnon pob daioni, - a'n llanwodd
 Â lluniaeth eleni;
 Ei ddilyn a'i addoli
 Am ei nawdd a ddylem ni.

Ond y mae i ni ryddid i ddod neu beidio. Mae'r cyfrifoldeb ar bob un. Mewn tŷ yn Bruges yn yr Iseldiroedd mae'r geiriau hyn uwchben y drws: *Mae rhagor oddi mewn.* Cafodd y Samariad a ddychwelodd, a ymgrymodd ac a ddiolchodd, lawer iawn mwy na'r lleill. Mae'r geiriau am ddiolch a ddefnyddir yma yn cael eu defnyddio hefyd yn Swper yr Arglwydd, y Cyfarfod Diolchgarwch am *ryfedd gynhaeaf grawnwin pêr y groes.*

*Ni ddaeth erioed i galon sant
 Y modd y darpar Duw i'w blant.*

Ei goron yw ei gariad – i'w oesoedd;
 Mae'n rasol ei fwriad,
 A mwy na dim, y mae'n Dad,
 Yn Iachawdwr a Cheidwad.

E. H. Griffiths yn Harri Parri, Ffynnon ac Allor

DANGOS DIOLCH

Pan fydda i angen dangos fy niolchgarwch i Dduw byddaf yn meddwl am leoliadau sy'n bwysig, sy'n caniatáu i ni ymddatod rhag hualau y byd. Aelwydydd sy'n cynnig eu cariad i mi – eu tân glo o gynhesrwydd yn y gaeaf a'i ddrysau agored yn yr haf. Mi fydda i'n cofio am ffydd a hyder ein cyndeidiau a sefydlodd gapeli ac eglwysi yn dystiolaeth byw i Iesu Grist, ac yn cofio'r neges fod rhwydwaith Duw ddim yn gyfan heb ein lliw arbennig ni.

Mi fydda i'n meddwl am y bobl hynny y cawn fynediad i'w calonnau a'u heneidiau nhw, ac yn y parch sy'n deillio o hynny, daw atgof i'n cynhesu pan fyddo'r nos yn hir. Mi fydda i'n meddwl am y bobl hynny y gallwn adael goriad y tŷ iddyn nhw yn ogystal ag agoriad y galon. Diolchwn am bawb a gynigiodd rywbeth i ni o'u profiad i'n gwneud ni yn well pobl. Diolch am gadw cyfrinach a rhannu baich, deall heb ofyn, a phob ymgais i glosio at adnabyddiaeth gyflawn o'r bobl sy'n dymuno.

Pan fydda i isio diolch am wychder Duw mi fydda i'n cofio doethineb henoed, delfrydiaeth ieuenctid. Cofiaf am barodrwydd ieuenctid i wynebu pethau a'u dewrder i fentro. Diolch am wychder partneriaeth, dewrder unigolion a'r cynhesrwydd sy'n deillio bob amser o deimlo eich bod chi'n cyfrif. Pan fo'r fron eisiau cysur mi fyddaf yn sbïo ar hen lyfrau o luniau lle mae'r cof yn parhau'n ir am bethau gorau bywyd, wedi eu dal mewn eiliad na ddaw'n ôl. Yno, rhwng cloriau'r albwm does neb yn mynd yn hen a does neb yn marw. Diolchaf am enw ar glawr llyfr, neu rodd o fan arbennig ar wyliau sy'n dal i ysbrydoli. Diolch am fedr gwneuthurwyr a gyrwyr awyrennau sy'n gwneud ein byd rhyfeddol yn llai, ac yn fwy agored. Diolch am feddygon a nyrsys sy'n trin ein cyrff a'n meddyliau briw dan amgylchiadau anodd eu hunain, ac yn wir pob galwedigaeth sy'n hyrwyddo cyfathrebu ac ymddiried rhwng unigolion.

Dyma'r englynion i fendithio'r Casgliad gan W.D Williams y Bermo, sydd ddim mor adnabyddus â'r Gras cyn Bwyd:

I Ti, cyflwynwn, ein Tad – annigon

Geiniogau ein casgliad;

I Ti sy'n rhoddi mor rhad

Ddoniau gorau Dy Gariad.

O, Dirion Roddwr, dyro – inni ras
 i’w haddas ddefnyddio;
 Pob gwasgar a phob gwario
 Dan wlith dy hael fendith fo.

Darllenais yn drawiadol iawn ar boster – ‘Os yw Duw ymhell i ffwrdd, pwy sydd wedi symud?’ Fe atgoffodd hyn fi o eiriau Syr Christopher Wren a anwyd ar y dydd hwn ym 1632. Ar ei fedd yntau yng Nghadeirlan Sant Paul ceir y geiriau:

‘Os ydych yn chwilio am gofeb iddo – edrychwch o’ch cwmpas.’

Aled Lewis Evans, *Troeon*

YM MHOB DIM RHOWCH DDIOLCH

Lle mae pobl yn aml yn adweithio i’w gilydd yn galed ac yn swta, mor hyfryd yw taro ar berson sy’n foesgar. Nid drwg o gwbl yw ymarfer mymryn o gwrteisi tuag at ein gilydd. Wedi’r cyfan, onid yw’n arwydd a warineb, ac o barch dyn at gyd-ddyn?

Tybed nad yw moesgarwch o’r fath yn beth eithaf prin bellach mewn siop a stryd a swyddfa? Onid oes ddigon sy’n barod i fynnu eu hachos dan gipio’u ‘hawl’ heb gydnabod o gwbl y drafferth yr aed iddi ar eu rhan?

Gwych oedd sylwi ar y rhieni hynny’n ceisio dysgu’r teirblwydd oed i ofyn ‘os gwelwch yn dda’ cyn cael. Ac i ddweud ‘diolch’ ar ôl hynny. Er i’r gwersi diolch fod yn rhai meithion i’r bachgen bach, o’r diwedd roedd wedi dysgu’r egwyddor yn bur ganmoladwy.

Un dydd, digwyddodd ei dad sylwi ar Tomos ar ben y clawdd. Yn sydyn, dyma’r bychan yn llithro’n swp i’r ddaear. Rhedodd ei dad ato, ei godi i’w freichiau a gofyn, ‘Wyt ti wedi cael dolur, y ngwas i?’ Ac atebodd Tomos yn ei ffwnder, ‘Do, diolch.’

Bendith ar y mymryn bach! Prin y buasai’n deall ymresymiad Pantycelyn, ‘Da yw’r groes, a da yw gwasgfa...’ Ond yr oedd egwyddor nobl diolch wedi gwreiddio ynddo’n eithaf diogel.

HAU DY HAD YN Y BORE, A PHAID Â GORFFWYS CYN YR HWYR....

‘Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, ac fe’i cei’n ôl ymhen dyddiau lawer’, medd Llyfr y Pregethwr (11: 1). Tybed beth oedd ym meddwl y brawd diddorol hwnnw? Yng ngŵyl bregethu Awst ym Mhen Llwn, roedd gan D.J. Lewis, y Tymbl, gynnig nas clywais gan neb arall na chynt na chwedyn: ‘Bwrw dy fara ar wyneb y ceunant chwyddedig, a thi a’i cei *efallai*. Ond os na chei di e, mi fyddi dithe yn y swing yn rhywle.’ Gwreiddiol, a dweud y lleiaf, sy’n gadael pwnc trafod eithaf astrus! O bob cyfieithiad, yr hyn a hoffaf i yw hwnnw yn y *New English Bible*: ‘Send your grain across the seas, and in time you will get a return.’

Mae’r frawddeg yn awgrymu golygfa wledig o ffarmwr yn ymlwybro’n llafurus dros ael y bryn dan gario pwn enfawr o wd ar ei gefn. Ar gulffordd gyferbyn, dyma ffarmwr arall yn tywys ebol sy’n llusgo trol fechan ac ynddi hanner dwsin o sachau llawnion. Guyr y ddau amaethwr fod llong yn yr harbwr gerllaw yn aros am eu cynnyrch, i’w gludo ar draws y môr a’i werthu mewn porthladd arall. ‘Send your grain across the seas....’ ‘Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd....’

Yr awgrym yw credu mewn mentro hau, am y daw’r cynhaeaf yn ei amser. gyda lwc. Wedyn, bwrw ar fenter bellach, sef masnachu’r cynnyrch, gan dderbyn y daw’r tâl ‘ymhen dyddiau lawer’, siawns.

....CANYS Y MAE EFE YN PERI I’W HAUL GODI AR Y DRWG A’R DA, AC YN GLAWIO AR Y CYFIAWN A’R ANGHYFIAWN.

Wedi wythnos o sychder, un bore dyma’r awyr yn cymylu, a dafnau o law yn disgyn hwnt ac yma. Cyn bo hir, dwysaodd yn genllif, ac felly y bu dros weddill y dydd ac ar hyd y nos. Erbyn trannoeth, roedd y gweddnewid yn amlwg ar y meysydd wd, a bron na ellid gweld y coesau’n ymestyn a’r tywysennau’n trymhau.

Bu’r genllif yr un mor fendithiol ar erwau’r winllan wastad; golchwyd y dail, trwythwyd y gwreiddiau, a bron na ellid gweld pelenni bach y grawnwin yn tewychu. Yn y man, daeth yr haul mawr yn ôl i’r glesni, ac yn anterth ei wres, aeddfedodd y grawn yn wd y maes, ac yn sypiau’r winllan.

Wrth rannu’r bara oddi ar Fwrdd y Sacrament, onid oeddem yn bwyta’r glaw? Ac wrth gymryd y gwin, onid oeddem yn yfed yr haul? A’r Creadur,

ar archiad y Crëwr, yn cyfranogi o'r Cread – nes mynd yn rhan lythrennol o wyrth pethau.

Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r golau.

AI'R ESTRON HWN YN UNIG A GAFWYD I DDYCHWELYD AC I ROI GOGONIAINT I DDUW?

Wrth grwydro mewn gwledydd tramor, mae'n ofyn go fawr i deithiwr fedru siarad yr holl ieithoedd gwahanol sydd ar ei drafael. Ond wedyn, y mae yngan ambell air o iaith y brodorion yn beth pur ddymunol, yn enwedig geiriau bach cwrteisi.

Pan fyddwn ar grwydr felly ers llawer dydd, ceisiwn ddysgu ymadroddion am dri pheth arbennig. Y cyntaf oedd 'maddeuwch i mi' – am y byddai dyn ar brydiau'n gorfod torri ar draws dau yn sgwrsio, neu'n waeth na hynny, yn gwneud rhywbeth trwsgl, anffodus lle y dylai ymddiheuro. Yr ail oedd 'os gwelwch chi'n dda'. A'r trydydd, a ystyriwn cyn bwysiced â'r un arall, sef 'diolch'.

Dyma rai o'r diolchiadau a gofiau: Yr Eidal – *grazie*. Iwgoslafia – *hvala*. Groeg – *evcharisto*. Ffrainc – *merci*. Sbaen – *igracias*. Twrci – *teshuk cur ederim*. Yr Almaen – *danke schon*.

Onid yw'r Llyfr Mawr yn llawn diolch ar bob llaw? 'Awn i'w byrth ef â diolch,' meddai'r Salmydd. 'I Dduw y byddo'r diolch,' meddai Paul wrth y Corinthiaid. Ac wedyn wrth y Thesalonïaid: 'Ym mhob peth diolchwch.' A'r Meistr ei hunan, dro ar ôl tro: 'Yr wyf yn diolch i Ti, O Dad....' 'Ac wedi iddo gymryd y cwpan, a rhoi diolch....'

Da y'n dysgwyd ni gan Morgan Rhys:

Diolch iddo

Byth am gofio llwch y llawr.

AMGYLCHYNAIST FI YN ÔL AC YMLAEN...

Yn llechwraidd o'r tu ôl ichi, daw cyfeilles gan ddal bag plastig bychan, a sisial yn eich clust: 'Tip i'r dreifar!' Mae'n bleser gennych chwithau ollwng dyrnoid o arian i dincial ar y pres sydd eisoes wedi eu cyfrannu gan deithwyr seddau cefn y bws mawr.

Rydych wedi bod yn teithio ers cryn bythefnos yn y bws nes cyrraedd pen draw'r siwrnai yn nhopiau'r Eidal. Ond bellach, cyn pen hanner awr, dylech gyrraedd adre'n ôl i'ch hen gynefin.

Pa ryfedd ei bod yn bleser calon gennych roi cil-dwrn yng nghasgliad y bag plastig! Tra buoch chi'n mwynhau'r daith dramorig mor ddiotal (a difeddwl hefyd, efallai) onid oedd llygaid effro Huw y gyrrwr yn craff wyllo'r drafnidiaeth aflonydd oedd o'i flaen – ac o'i ôl yn ogystal? Roedd ei ddwylo'n gyson ar yr olwyn, a'i draed yn trafod y pedalau wrth reddf.

Nid talu cyflog i Huw sy'n digwydd wrth i'r bag plastig gasglu o sedd i sedd, namyn teithwyr diolchgar sy'n llawen barod i gydnabod mawr ofal y gyrrwr amdanyn nhw o filltir i filltir.

'Beth a dalaf i'r Arglwydd, am ei holl ddoniau i mi?' Dyna gwestiwn Salm 116: 12. Wel, am mai benthyc yw popeth a feddwn, *fedrwn* ni ddim talu, ar wahân i gynnal Gŵyl Ddiolch fel math o gil-dwrn, efallai. Tra buom ni'n symud yn ddiidig trwy flynyddoedd bywyd, boed hindda neu ddrycin, hyfryd yw cydnabod y Llaw Anwel fu'n gyson wrth lyw y cread o ddydd i ddydd ac o nos i nos.

....A'R BOBL A GRËIR A FOLIANNANT YR ARGLWYDD

Hyd y gallaf ddirnad, nid yn aml – os o gwbl – y gall unrhyw greadigaeth siarad â'i chreawdwr. Nid yw'n arfer gan yr hyn a grëwyd ymgysylltu â'r sawl a'i creodd.

Dyna'r peiriant modur, sy'n rhan o fywyd pawb ohonom erbyn heddiw. Ystyrier mewn sobrwydd wneuthuriad y cymhlethdod metel hwnnw: symudiad piston yn sugno nwy petrol, gwifrau sy'n cludo fflach drydan yn ffrwydro'r nwyon nes cicio'r piston o lawr ac i fyny....yna'r echelydd yn cnoi eu ffordd trwy ddannedd olwynion sydd erbyn y diwedd yn symud tunnell o gerbyd ar hyd y ffordd fawr gyda chyflymder dewinol. Yn ddiweddar, gyda'r datblygiadau electronig, aeth cymhlethdod y peiriant yn fwy fyth o destun rhyfeddod a dirgelwch. Hyn oll, heb sôn am gampau'r hofrennydd a'r Concorde.

Eto, mudion ydyn nhw i gyd. Ni siaradodd yr un peiriant erioed â'i beiriannydd. Ni thorrodd ei bortreadau yr un gair â Raphael, na'i ddelwau marmor yr un sill â Michelangelo. A hynny am na all creadigaeth ymgomio â'i chreawdwr.

Ond pan ddown at ddyn, dym enghraifft o greadur sy'n abl i siarad â'r hwn a'i creodd. Sylwer ar David Charles yn defnyddio'r modd cyfarchol yn ei bennill:

Tydi sy deilwng oll o'm cân,
 Fy Nghrëwr mawr a'm Duw....

Ac o hynny ymlaen, mae'r emyn yn troi'n siarad brwd.

Y SEREN A WELSANT YN Y DWYRAIN A AETH O'U BLAEN HWY

Myn y gwybodusion mai'r seren agosaf at ein daear ni yw'r Proxima Centauri. A'r pellter rhyngom, meddir, yw 25 o filiynau o filiynau o filltiroedd. Yn hytrach nag ymgodymu ag anferthedd y ffasiwn rif – 25,000,000,000,000 – dewisodd y seryddwyr drosi'r milltiroedd i flynyddoedd, sy'n golygu y cymer bedair blynedd a hanner i oleuni'r seren gyrraedd ein daear ni. Ffaith ysigol arall!

Felly, pe gwelem ni'r Proxima Centauri heno, nid ei gweld fel y *mae* y buasem, ond ei gweld fel yr *oedd* bedair blynedd a hanner yn ôl. Mae hi ers hynny wedi mynd yn ei blaen.

Robin Williams, *Digon i'r Diwrnod*

NEGES AR GYFER OEDFA DDIOLCHGARWCH

Testun: ‘Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol’. (*Mathew 6: 11*)

Beth ddywed y deisyfiad hwn am y Cristion fel diolchwyr?

1. Mae'n berson sy'n cydnabod ei ddibyniaeth ar Dduw – ‘Dyro....’
 Mae'n berson nad yw'n diystyru ei denantiaeth.
2. Mae'n berson sy'n ymwybodol ei fod yn aelod o deulu – ‘Dyro inni.....ein bara....’

3. Mae'n berson a chanddo'r allwedd i ddedwyddwch – ‘Dyro inni heddiw’.
4. Mae'n berson sy'n amddifad o drachwant – ‘Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol’.

Gerald Jones ac eraill, *Ar Lwybr Mawl a Myfyrdod*

RHOI A BYW EIN DIOLCH

Rhoi ein diolch

Mae gwir ddiolchgarwch yn fwy na dweud a chanu ein diolch. Mae gwir ddiolchgarwch yn golygu cyfieithu'n cân o ddiolchgarwch yn rhoddion hael.

Mae gwahaniaeth mawr rhwng cadw yn hunanol a rhoi yn haelionus. Llaw gaeedig sydd gan y person hunanol, ac mae llaw felly yn gallu troi'n ddwrn, ond llaw agored sydd gan yn person hael, ac mae llaw felly yn llaw gyfeillgar.

Wrth annog ein gilydd i roi ein diolch, rydym yn cydnabod mai Duw yw'r rhoddwr mawr. Dywedodd merch fach wrth ei ffrind, *‘Mae Dad yn cael ei ben blwydd yfory, a rydw i eisiau rhoi anrheg iddo.’* Gofynnodd ei ffrind, *‘Gan bwy gei di bres i brynu'r anrheg?’* A'i hateb parod oedd, *‘Gan Dad, wrth gwrs!!’* Onid yw hyn yn wir yn hanes pawb ohonom? Duw yw ffynhonnell pob peth sydd gennym, ac ef yw'r rhoddwr mawr.

Duw yn rhoi. Dyma yw natur cariad Duw. Ef sydd wedi rhoi daear a gwlad yn gartref inni, rhoi teulu a chyfeillion inni, a rhoi anadl o'n mewn, a bwyd a diod i'n cynnal a'n cadw yn fyw. Natur cariad Duw erioed yw rhoi, ac onid hyn yw neges fawr yr Efengyl? *‘Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.....’* Dyma, yn ddi-os, y rhoi mwyaf a wnaeth Duw erioed – rhoi ei Fab Iesu Grist inni, a'r Mab yn rhoi ei hunan inni, rhoi ei gyfeillgarwch inni, rhoi ei wasanaeth, a rhoi ei hunan inni hyd angau ar groes. Na, *‘ni allaf roddi fel y rhoddaist im....’* – cymharol yw pob peth. Rhyfeddod mawr y Cristion yw bod Duw wedi rhoi cymaint inni er gwaethaf ein gwrthryfel pechadurus yn ei erbyn. Pobl wedi cael heb haeddu cael ydym – cael trugaredd, cael maddeuant, a chael Iesu yn Gyfaill ac yn Waredwr ein bywyd. Cael y cyfan am ddim, yn rhad – rhad ras!

Pa fodd y dylem ymateb i hyn oll? Yr ateb yw bod yn ddiolchgar ein hysbryd ac yn hael ein calon. Oni ddywed Iesu Grist wrthym, *'Derbyniasoch heb dâl, rhoddwch heb dâl.'* Mae i'r bywyd Cristnogol ei wedd ymarferol – rhoi yn y casgliad, rhoi i achosion da, rhoi amser i ymweld â'r cleifion, rhoi cwmni i'r unig, rhoi cymorth i'r gwan, ac yn y blaen. Gorffennwn gydag anogaeth Paul, *'Beth bynnag yr ydych yn ei wneud ar air neu weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, gan ddiolch i Dduw y Tad drwyddo ef.'*

Byw ein diolch

Y mae graddfeydd o ddiolchgarwch. Y gris gyntaf yw dweud diolch. Yr ail ris yw canu ein diolch. Y trydydd gris yw rhoi ein diolch, ond y gris uchaf yw byw ein diolch.

*'Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle,'*

Mae rhoi ein diolch yn ardderchog, ond mae byw ein diolch yn well. Rhoi ei wasanaeth mae'r person proffesiynol – rhoi amser penodedig i'w feistr bob dydd, ond rhoi ei hunan mae'r Cristion, *'Fy hunan oll i ti, O Iesu da.'*

Mae anogaeth Paul yn ardderchog: *'Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi.'* Nid diolch am bob peth sydd yma, ond ym mhob peth – ym mhob sefyllfa byddwn ddiolchgar. Gwelwyd hyn yn Iesu Grist yn ystod ei weinidogaeth. Pan oedd cynulleidfaoedd yn tyrru i wrando arno yn eiddgar, fe gofiwn iddo gymryd y torthau a phorthi'r pum mil, ond cyn hynny cododd ei olygon at ei Dad nefol, *'a rhoi diolch.'* Do, fe fynegodd ei ddiolchgarwch i'w Dad nefol pan oedd popeth yn dda, ond cofiwn iddo fod yr un mor ddiolchgar yng nghwmni ei ddisgyblion yn yr oruwchystafell, ac yntau erbyn hynny'n gwybod fod ei groes wrth ymyl. Y noson honno, a Jwdas ar fin ei fradychu, cymerodd Iesu fara *'a rhoi diolch.'* Yn wir, roedd ei holl fywyd, yn y melyn a'r chwerw, yn sacrament o ddiolchgarwch i'w Dad nefol.

John Lewis Jones, *Coronwch Efyn Ben*